PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 7 | Chwefror 13, 2025 | 50c.

## Apêl Ffynhonnau Byw

Bydd yr apêl sydd ar y cyd rhwng Cymorth Cristnogol ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sef Ffynhonnau Byw yn cau ar ddiwedd mis Chwefror 2025.

Anfonwch eich holl gyfraniadau at Undeb yr Annibynwyr cyn gynted ag y bo modd. Diolch o galon am eich haelioni.




# Gair o ddiolch i Gwyn

Ar ôl i'n gweinidog Parchg Emyr Gwyn Evans ein gadael a mynd i astudio ymhellach o dan adain Prifysgol Y Drindod Dewi Sant roedd angen i ni ddod o hyd i weinidog. Doedden ni ddim mewn sefyllfa i gynnal gweinidog ein hunain felly dyma edrych o'n cwmpas ac yn ffodus iawn i ni roedd y Parchg Gwyn Elfyn Jones wedi cymhwyso i fod yn weinidog yn weddol ddiweddar ac yn llythrennol 'lawr yr hewl'. Mantais arall i ni oedd bod ei fam a'i dad yng nghyfraith yn ddiaconiaid gyda ni. Er iddynt esgusodi eu hunain o bob trafodaeth oherwydd y cysylltiadau teuluol mae'n siŵr ei fod e wedi bod yn help i ddenu Gwyn i'n plith.



### Mab y Mans

Roedd rhaid i ni dderbyn cael cwrdd yn y prynhawn yn lle'r bore a oedd ychydig bach yn anodd dod i arfer ag e ar y dechrau ond unwaith y mis roeddwn yn gallu cael cwrdd y bore i'r boregodwyr. Prin iawn fu'r amser pan oedd Gwyn yn cael ei ystyried fel 'y gweinidog newydd' oherwydd roedd mor gyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom. Roedd naill ai yn perthyn, yn ffrind, wedi bod yn yr ysgol gyda rhywrai ac wedi chwarae rygbi neu wedi bod yn dilyn rygbi, neu gydganu mewn corau gydag eraill. Roedd rhai hyd yn oed yn gymdogion i'w deulu. Setlodd mewn i'n plith yn rhwydd iawn. I'r rhai oedd ddim mor gyfarwydd ag ef fel Gwyn y Mans roedden nhw wedi arfer a'i weld dros y blynyddoedd yn eu cartrefi fel Denzil yn *Pobol y Cwm*. (Roedd wastad yn creu 'bach o gynnwrf yn y ward pan fyddai'n dod i ymweld ag aelodau oedd yn yr ysbyty. Roedd hyd yn oed y rhai di-Gymraeg yn dweud, 'Was that Denzil from Pobleecoom?').

Roedd pethau'n hapus braf a phob dim yn iawn. Roedd Gwyn yn boblogaidd gyda'r gynulleidfa hŷn ac yn ffefryn gyda'r plant am ei fod yn mwynhau pan oedd yn chwarae'r ffŵl ac yn tynnu eu coes.

### Bendith technoleg

Yna daeth Covid a'i gysgod. Bydd pawb ohonom â gwahanol atgofion am y cyfnod tywyll yna ac mae'n bwysig iawn ein bod dal i gofio am yr unigolion gollodd deulu a ffrindiau yn ystod y cyfnod yna. Hyd yn oed os nad Covid oedd y rheswm roedd ffarwelio ag anwyliaid dan amgylchiadau ofnadwy yn greulon tu hwnt. Roedd hi'n gyfnod rhyfedd iawn ond roeddwn yn ffodus ein bod wedi gallu cael anerchiad wythnosol bron o'r cychwn ar YouTube ar adeg pan oedd clywed y Gair hyd yn oed yn bwysicach nag arfer. Hefyd fe gynhaliwyd gwasanaethau byw ar y cyd gyda'r ddwy eglwys arall ar Zoom sawl gwaith. (Rhaid cymryd y cyfle fan hyn i ddiolch i'r holl weinidogion ymhell ac agos a fu wrthi'n ein cynnal drwy gyfrwng technoleg yn ystod y cyfnod yna.)

Er i Covid ddod a chymaint o bethau gwael yn ei sgìl buom yn ffodus i ddysgu sgiliau newydd ac i gyrraedd aelodau sydd yn gaeth yn eu cartrefi am wahanol resymau neu yn byw yn bell i ffwrdd. Roedd Gwyn wedi parhau i recordio anerchiad i'r aelodau nad oedd yn gallu dod i'r cwrdd hyd ddiwedd ei weinidogaeth gyda ni.

### Cyfathrebwr

Dyn aeddfed oedd yn weinidog eithaf newydd ddaeth atom ni ym Methesda dros wyth mlynedd yn ôl. Gallwn weld ei ddatblygiad a'i grefft yn cael ei hogi wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaenau. Roedd wastad ganddo'r *common touch*. Roedd yn gallu cyrraedd ei gynulleidfa'n rhwydd – efallai am ei fod wedi gweithio mewn meysydd eraill cyn mynd i'r weinidogaeth? Oherwydd ei amryw ddiddordebau ym myd y ddrama, mewn hanes lleol, rygbi a phêl droed roedd yn gallu cymharu sefyllfaoedd gyda'i neges a'n cael ni i ddeall fel oedd modd trosglwyddo'r neges i'n bywyd a'n sefyllfa ni. Gyda'i rhieni yn dod o'r gogledd roedd hyd yn oed yn gallu newid geirfa ac acen yn ôl y galw!
Rydym yn ddiolchgar yn ogystal i Caroline am fod yn gefn iddo yn ystod y cyfnod ac yn enwedig adeg Covid. Rydym wedi gallu elwa o'u chefnogaeth a'u dawn wrth yr organ hefyd ar adegau sydd wedi bod yn fendith.

### Gwerthfawrogiad

Er ein bod yn ffarwelio gyda Gwyn fel ein gweinidog rydym yn ffodus ei fod dal 'ambwyti'r lle'. Mae wedi cytuno i gynnal cymundeb i'r tair eglwys (ni, Nazareth Pontiets a Chapel Seion) ar yr un pryd yn y bore unwaith y mis tan i ni gael gweinidog yn ei le. Diolchwn iddo am ei garedigrwydd yn gwneud hyn. Cawn gyfle yn y flwyddyn newydd i ddathlu ei weinidogaeth gyda'n gilydd fel aelodau'r tair eglwys mewn cinio yn y Llwyn Iorwg lle cawn gyfle nid i ddweud ffarwel ond i ddweud *au revoir*.

**Elen Davies**

*mwy ar dudalen 2*

# Gair o ddiolch i Gwyn – *parhad*

[Gan ddiolch o waelod calon i'r bonheddwr Geraint Roberts, Cwmffrwd am yr englynion arbennig yma. Roedd Geraint wedi bod yn athro ar Gwyn yn ysgol ramadeg y Gwendraeth ar ddechrau ei yrfa fel athro'n syth o'r coleg ac wedi teimlo hi'n fraint i gael paratoi'r canlynol.]

## I gyfarch y Parchg Gwyn Elfyn

*wrth ymddeol fel gweinidog Bethesda'r Tymbl*

Os mai ffuglen fu'r bennod – ar y sgrin,
gras y Groes yw defod
yr actor a'i Gymreictod
sydd yng nghân Bethesda'n bod.

Mor gadarn ei gred wedyn – a'i ruddin
trwy'r weddi a'i destun,
ac elfennau'r Suliau sy'n
harddu Cwm wrth fwrdd Cymun.

Cennad y Gair cofiadwy – un a saif
mor sicr yn yr adwy,
o hyd gwas dibynadwy
yw Gwyn y Mans, ac i Un mwy.

**Geraint Roberts**




# Dyfodol *Y Tyst*




Derbyniwyd sawl ymateb i'r 'Holiadur i chi'r darllenydd – trafod dyfodol *Y Tyst*', welwyd yn *Y Tyst* 20 Mehefin, 2024. Peth braf iawn oedd darllen yn y llythyrau a gyhoeddwyd yn *Y Tyst*; negeseuon cadarnhaol, diolchgar a gwerthfawrogol o'r cyhoeddiad yn gyffredinol, ac yn arbennig, felly, yng nghyd-destun yr holiadur, am ei gael fel papur wythnosol.

Rhag i'r dybiaeth bod bwriad i ddod â'r *Tyst* yn ei wedd bresennol i ben gerdded rhagddi'n ofer, cystal datgan yma'n awr na chafwyd un argymhelliad o du'r Undeb i'r perwyl hwnnw. Yr hyn a gafwyd, yn hytrach, oedd arolwg o'r *Tyst*, yn ei gyfanrwydd, popeth ac eithrio'i gynnwys gan banel a godwyd gan y Pwyllgor Gweinyddol. Gwnaed hyn fel mater o drefn ac arfer da. At hyn, eisteddodd y panel golygyddol hefyd, uwchben y mater.

Nid syndod llwyr oedd canfod dwy farn bendant yn ein plith ac yn sgil hynny, ac yn wyneb y sylwadau a gafwyd wedyn, synhwyrwyd nad ydym eto'n aeddfed i lunio penderfyniad na chynnal pleidlais ar y mater ac y mae hynny'n gwbl dderbyniol, wrth gwrs.

Bod y drafodaeth wedi diflannu'n llwyr, sydd fater arall. Tra deil niferoedd y tanysgrifwyr i ddisgyn, ein defnydd o'r we gynyddu a'n partneriaeth â *Cenn@d* i dyfu a datblygu eto'n fwy bydd gofyn eto, rhywbryd, am drafodaeth ar gamau nesaf *Y Tyst*.

Yn y cyfamser, daliwn ati i'w ddarllen a'i fwynhau gan ddiolch o galon i'r tîm golygyddol am lafurio mor ddygn a brwdfrydig i'w ddwyn i law'n wythnosol.

**Dyfrig Rees**

## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

# Y Drysorfa Gynorthwyol

### Grant i ofalaeth o un neu ragor o eglwysi tuag at gydnabod y gweinidog 2025

### Y nawdd:

Hyd at £7,500 y flwyddyn, hyd at 5 mlynedd, i gynorthwyo gofalaeth, o un neu ragor o eglwysi, i dalu'r gydnabyddiaeth gychwynnol i'r gweinidog, ynghyd â thaliadau eraill, yn unol ag argymhelliad yr Undeb am 2025;

| | |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 29,989 |
| Lwfans tŷ (lle na byddo tŷ di rent a di-dreth wedi ei ddarparu) | 5,231 |

Treuliau teithio (ar y raddfa a gymeradwyir gan Cyllid a Thollau EM 45c y filltir am y 10,000 milltir cyntaf a 25c am bob milltir wedyn)

### Amodau:

Yn achos gofalaeth o ragor nag un eglwys gall un ohonynt gyflwyno'r cais

Disgwylir i bob eglwys

- fod wedi talu ei thanysgrifiad aelodaeth i'r Undeb yn llawn
- gyflwyno Adroddiad Ariannol pob eglwys am y ddwy flynedd flaenorol fydd,
  i. yn dangos ymdrech deg ei haelodau i gyfrannu tuag at y weinidogaeth
  ii. yn dangos nad oes ganddi adnoddau ariannol sylweddol wrth gefn, nad ydynt yn ymrwymedig, y gellid eu defnyddio tuag at gynnal y weinidogaeth

Dyfernir grant pro rata

- yn achos gofalaeth gydenwadol, i eglwys/i yr Annibynwyr
- n achos gofalaeth sy'n cynnal gweinidog rhan amser

### Gweinyddu:

Ystyrir y ceisiadau gan y Panel Arfarnu.

Ymddiriedolwyr y Drysorfa Gynorthwyol fydd goruchwylwyr y cynllun grant â'r hawl ganddynt i'w addasu a'i ddiwygio yn ôl y gofyn.

Bydd yn ofynnol cyflwyno cais yn flynyddol erbyn diwedd mis Mawrth i'w ddyfarnu erbyn diwedd mis Ebrill.

Am ffurflen gais cysyllter â'r Swyddog Gweinyddol meinir@annibynwyr.cymru 01792 795888.

# Argyfwng cyrsiau academaidd ym maes diwinyddiaeth yng Nghymru

Yn dilyn cyhoeddiad gan Brifysgol Caerdydd eu bod yn bwriadu cael gwared ar 400 o swyddi academaidd llawn amser, gan gynnwys dileu pwnc diwinyddiaeth yn gyfan gwbl, mae dyfodol hyfforddiant diwinyddol yng Nghymru yn y fantol.

Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, wedi datblygu a ffynnu, gan ehangu ei ddarpariaeth o ran hyfforddiant i'r weinidogaeth. Trwy gyflwyno mwy o opsiynau drwy gyfrwng y Gymraeg, bu cydweithio hapus iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn rhwng y Bedyddwyr, yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid, gan rannu adnoddau o fewn y coleg. Yn yr un modd mae Athrofa Padarn Sant yn Llandaf gyda'r Eglwys yng Nghymru wedi datblygu i gynnig llawer o gyrsiau ymarferol ar gyfer hyfforddi gweithwyr i'r maes Cristnogol. Tra mae llawer o'r hyfforddiant yn digwydd yn y colegau hyn, roedd yr elfen o ddilyn cwrs gradd academaidd yn dod o dan ymbarél y Brifysgol. Pan oeddwn i'n fyfyriwr diwinyddol ym Mangor 40 mlynedd yn ôl roedd hyfforddiant i lefel gradd BD a thu hwnt yn cael ei gynnig gan dri choleg prifysgol, sef Bangor, Llanbed a Chaerdydd. Gyda chyhoeddiad diweddar Caerdydd, ymddengys na fydd yr un brifysgol yng Nghymru yn medru cynnig cwrs gradd diwinyddol o 2026 ymlaen.

Wrth ymateb i'r newyddion ar raglen *Bwrw Golwg*, dywedodd yr Athro D. Densil Morgan, a fu'n darlithio yn y maes ym Mhrifysgol Bangor ac yna yn Llanbed, 'Mae'n ymddangos na fydd yr un adran ddiwinyddol mewn prifysgol yng Nghymru o gwbl – mae'r peth yn drasiedi. Lle roedd gyda chi Gaerdydd, Llanbed a Bangor yn cynnig holl rychwant diwinyddiaeth, astudiaethau Beiblaidd, astudiaethau athrawiaethol, hanes yr Eglwys, athroniaeth crefydd – mae'r adrannau i bob pwrpas wedi cau.'

Cred Dr Rosa Hunt, sy'n gyn-bennaeth Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, fod y bwriad i gael gwared â diwinyddiaeth fel pwnc yn drychineb. Meddai, 'Mae'r datblygiad hyn yn ofnadwy i bwnc academaidd Astudiaethau Crefyddol yng Nghymru. O ystyried



Rosa Hunt (yn y canol) gyda rhai o fyfyrwyr y coleg yng Nghaerdydd

rôl crefydd wrth lunio Cymru a'n byd amrywiol heddiw, byddai'n "drychineb" colli'r maes astudio pwysig hwn i fyfyrwyr ac academyddion fel ei gilydd.'

Mae Coleg y Bedyddwyr eisoes yn edrych ar opsiynau eraill, a bydd yr addysg yn parhau wrth i fyfyrwyr newydd gael eu derbyn eto yn 2025. O ran graddau ôl-raddedig, mae trefniant eisoes mewn lle â Choleg Rhyngwladol y Bedyddwyr, IBTS, yn Amsterdam.

Mae gan Gymru draddodiad cyfoethog iawn o hyfforddi diwinyddion blaengar ac arloesol, gyda llawer wedi teithio'r byd a chyhoeddi llyfrau academaidd sylweddol. Hyfforddwyd cannoedd o weinidogion a chenhadon dros y blynyddoedd, a hynny drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Gan sylweddoli bod yna lai o ddiddordeb yn y pwnc yn y cyfnod seciwlar rydyn ni'n byw ynddo ar hyn o bryd, hyderwn y byddwn fel cenedl yn parhau i ddiwinydda ac y bydd cyfleoedd i wneud hynny yn yr iaith Gymraeg. Pwyswn ar Brifysgol Caerdydd i ystyried eu penderfyniad yn ofalus, rhag colli'r pwnc yn gyfan gwbl o Gymru.

*Aled Davies*

## Datganiad gan Goleg y Bedyddwyr, Caerdydd


Rydym yn ddiolchgar am lawer o negeseuon o gefnogaeth yn dilyn y newyddion ddoe [28 Ionawr] fod Prifysgol Caerdydd yn cynnig newidiadau eang sy'n cynnwys, 'rhoi'r gorau i bynciau a rhaglenni yn y sector ... Crefydd a Diwinyddiaeth'. Mae'r rhain yn gynigion i'w trafod ar hyn o bryd ac rydym yn deall na fydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu tan fis Medi 2026 ar y cynharaf. Mae hyn yn golygu y gallwn dderbyn myfyrwyr newydd ar y cyrsiau BTh / MTh ym mis Medi 2025.

Os bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu, mae gan Brifysgol Caerdydd rwymedigaeth i barhau gydag addysgu graddau'r myfyrwyr, fel y byddai unrhyw un sydd wedi dechrau ar raglen astudio yn gallu ei chwblhau. Mae CBC hefyd wedi dechrau archwilio opsiynau eraill ar gyfer darparu cymwysterau, ac rydym yn hyderus na fydd profiad myfyrwyr presennol, nag yn y dyfodol, yn dioddef, ac ni fydd ein gallu i ddarparu ffurfiant o ansawdd uchel i fenywod a dynion i ddilyn galwad Duw mewn cenhadaeth a gweinidogaeth yn cael ei heffeithio chwaith. Dyma ein hymrwymiad.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ein partneriaeth hir sefydlog â Phrifysgol Caerdydd, ers 1893. Felly, rydym yn teimlo'n bryderus iawn am ein holl ffrindiau a chyd-weithwyr ar draws y brifysgol, ac yn enwedig y rhai sy'n gweithio yn Hanes a Chrefydd yr Henfyd, yr ydym yn gweithio gyda nhw bob dydd.

# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 6: Tymor i bob peth**

**Y Pregethwr 3:1–9**

Y rhan fwyaf cyfarwydd inni o Lyfr y Pregethwr yw'r gerdd fach hon ar ddechrau'r drydedd bennod. Hawdd deall pam iddi gael y fath sylw dros y canrifoedd a pham y codwyd hi o'i chyd-destun i'w defnyddio'n annibynnol. Fe'i gwelir ar gardiau a phosteri; mae'n cael ei darllen mewn cyfarfodydd ac fe'i haddaswyd ar gyfer cerddoriaeth. Cyfansoddwyd cân Saesneg yn seiliedig arni, sef 'Turn! Turn! Turn!' gan Pete Seeger. Recordiodd y band roc Americanaidd The Byrds fersiwn ohoni a fu'n boblogaidd iawn yn ystod y 1960au gan wrthwynebwyr i bolisi America yn Fietnam. Pan arwyddwyd y cytundeb heddwch rhwng Israel a'r Palestiniaid ym 1993, gorffennodd Prif Weinidog Israel, Yitzhak Rabin, ei araith drwy ddweud fod yna 'Amser i garu, ac amser i gasáu, amser i ryfel, ac amser i heddwch'. Yna ychwanegodd: 'Mae'r amser i heddwch wedi dod'. Ac wrth gwrs recordiodd Mary Hopkins fersiwn Gymraeg hyfryd ohoni (gellir gwrando arni ar Spotify https://open.spotify.com/track/77YuFz3ApEkKDKYFOxO0AI?si=d541621f5fc34603):

Y mae rhyw dymor, tro, tro, tro,
Ac mae awr i bob pwrpas dan y nefoedd
Rhyw awr i fod ac awr i fynd.

Mae'r testun Hebraeg gwreiddiol ar ffurf cerdd ac mae hyn, mi gredaf, yn gymorth wrth ystyried y cynnwys. Nid yw'r geiriau wedi eu hysgrifennu'n ffeithiol ac felly ni ddylid deall yr holl osodiadau'n llythrennol. Maent wedi eu hysgrifennu er mwyn i ni sylweddoli bod Duw yn goruwchlywodraethu dros bopeth. Mae'n dechrau drwy ein hatgoffa fod bywyd yn cynnwys popeth sy'n digwydd o'r crud i'r bedd. Fel hyn y mae Duw wedi trefnu bywyd dynol. Fe ddaw cyfnodau pryd y digwydd y pethau hyn ond ni wyddom pa bryd. (Gw. Iago 4:14)

**Yr amser iawn**

Mynegir testun y gerdd ar y dechrau, sef bod tymor i bob peth. Yna fe'i datblygir mewn 14 o gyplau cytbwys ond croes i'w gilydd sy'n enwi 28 profiad dynol. Rhoddir amser arbennig i bob digwyddiad, pob cyflwr, pob teimlad, pob gorchwyl. Tasg y doeth yw dirnad yr amser cywir er mwyn gweithredu'n gyfrifol. Wrth osod y cadarnhaol a'r negyddol ochr yn ochr, mae'r awdur yn mynegi realiti'r byd y mae'n byw ynddo, gan gydnabod nad yw'n hawdd dewis yr amser cywir i wneud rhywbeth. Ni allwn edrych ar yr holl gymalau yma ond ystyriwn ddau. Efallai yr hoffech chi fel criw drafod rhai o'r lleill.

**'Amser i gadw, ac amser i daflu ymaith' (3:6b)**

Mae rhai pethau, profiadau, gweithgareddau sy'n parhau am gyfnod yn unig. Weithiau daliwn afael arnynt yn rhy hir fel eu bod yn mynd yn feichus. Ond fe ddaw cyfnodau pryd y mae'n rhaid cael gwared o bethau a phrofiadau er mwyn symud ymlaen. Ac yna, yn ymarferol mewn bywyd mae bod yn ddarbodus yn beth doeth. Ond mae yma hefyd alwad i'r sawl sydd ar ben ei ddigon i fod yn hael drwy gofio am rai sydd heb ddim. Mae cyfoeth yn gallu ein caethiwo.

**'Amser i dewi, ac amser i siarad' (3:7b)**

Rhoddir cryn bwyslais yn Llên Ddoethineb ar yr amser addas i dewi ac i siarad. Yn ôl yr awduron, roedd grym yn perthyn i'r tafod, er drwg neu er da: 'Geiriau'r ynfyd yw ei ddinistr, ac y mae ei eiriau yn fagl iddo'i hun' (Diarhebion 18:7). Felly, rhaid bod yn ofalus wrth eu defnyddio. Gan fod i eiriau'r pŵer i glwyfo a chysuro, i gywiro ac i gamarwain, i greu ac i chwalu cyfeillgarwch, mae'r doethion yn rhoi sylw nid yn unig i gynnwys yr hyn a ddywedir ond hefyd i'r dull a'r amgylchiad: 'Fel afalau aur ar addurniadau o arian, felly y mae gair a leferir yn ei bryd' (Diarhebion 25:11).

Ond er mwyn sicrhau yr yngenir pob gair 'yn ei bryd' a'i fod felly'n addas i'r cyd-destun, rhaid dysgu ffrwyno'r lleferydd. Rhaid gwybod pryd i siarad, a phryd i dewi. Mewn rhai amgylchiadau, megis galar a phoen, mae distawrwydd yn amserol (Job 2:13).

Ceir yma'n ogystal adlais o ddysgeidiaeth y doethion yn y Testament Newydd. Yn ei gyngor i'w gyd-athrawon, mae Iago'n eu hatgoffa fod y tafod, er yn aelod bychan o'r corff, yn amhosibl i'w reoli (Iago 3:5–8). Wrth restru rheolau'r bywyd newydd yng Nghrist, mae Paul hefyd yn atgoffa'r Effesiaid o rym y gair: 'Nid oes yr un gair drwg i ddod allan o'ch genau, dim ond geiriau da, sydd er adeiladaeth yn ôl yr angen, ac felly'n dwyn bendith i'r sawl sy'n eu clywed' (Effesiaid 4:29).

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Ym mha ffyrdd y mae'r farddoniaeth enwog yn 3:1–8 yn her i'r Cristion?
2. Yn eich barn chwi, a oes y fath beth ag 'amser i ladd'?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 16 Chwefror – Emynwyr Sir Benfro**
Bydd Lowri Morgan yn ymweld â sir Benfro i ddysgu mwy am emynwyr mawr y fro yng nghwmni'r cerddor John S. Davies a'r awdur Hefin Wyn. Daw'r canu mawl o Gapel Bethel, Mynachlog-ddu. A chawn berfformiad arbennig gan y soprano o Landysilio, Jessica Robinson.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 16 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siân Thomas

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 16 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Owain Griffiths, Glynrhedynog




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Grym anorchfygol gobaith

cymorth cristnogol



Llun: Havard Bjelland/NCA

Mae miliynau o bobl yn Swdan wedi ffoi o'u cartrefi ac yn wynebu newyn

Oeddech chi'n gwybod bod Cymorth Cristnogol yn 80 oed eleni? Ers wyth degawd, rydyn ni wedi bod yn fynegiant o ffydd yng ngrym anorchfygol gobaith i greu byd mwy cyfiawn a heddychlon. Rwy'n dweud 'ni', oherwydd mae Cymorth Cristnogol yn fudiad anhygoel o bobl a phartneriaid – mudiad y mae sawl cymuned yma yng Nghymru wedi bod yn rhan ohono o'r cychwyn cyntaf fwy neu lai.

Mae hi'n cymryd tipyn o ymrwymiad i gynnal gwaith fel hwn dros y degawdau, ac mae'r ffyddlondeb i weledigaeth y mudiad yn rymus ymhlith unigolion, eglwysi a chymunedau heddiw. Efallai na ddylai hyn ddim bod yn syndod. Mae'r gwaith wedi ei sefydlu ar ffydd yng 'ngrym anorchfygol gobaith', a dyma eiriau neu ymadrodd a glywch yn ystod y flwyddyn.

Diolch i gefnogaeth ffyddlon at y gwaith, y llynedd drwy 260 o bartneriaid, cyrhaeddwyd 4.5 miliwn o bobl drwy gannoedd o brosiectau – o grwpiau arbed a chynilo i sefydlu dulliau ffermio cydweithredol, o hyfforddiant i leihau risg trychinebau hinsawdd i waith iechyd. Rydym yn hynod ddiolchgar am ymateb hael capeli Cymru i'r gwaith dyngarol yn Gaza ac ar draws y Dwyrain Canol, lle mae ein partneriaid yn parhau i roi cefnogaeth sy'n achub bywydau pobl gyffredin yng nghanol y gwrthdaro. Nawr, yn dilyn Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol, a dynnodd sylw at sefyllfa druenus ffoaduriaid yn Ne Swdan, rydym wedi lansio Apêl Argyfwng Swdan ddiwedd Ionawr i helpu rhagor o bobl sydd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi oherwydd gwrthdaro ac sy'n wynebu bygythiadau pellach o newyn ac afiechyd.

Mae'r alwad i weithredu dros gyfiawnder cyn gryfed ag erioed. Hoffem estyn gwahoddiad i bawb eleni - yn unigolion, teuluoedd, eglwysi a chymunedau - i nodi pen-blwydd arbennig Cymorth Cristnogol mewn rhyw ffordd. Wrth i ni ddiolch am ymrwymiad diwyro ein heglwysi a'n cymunedau, dyma gyfle i ailymrwymo i'r gwaith heddiw i greu dyfodol gwell i holl bobl Dduw. Bydd nifer o adnoddau arbennig i nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 ar gael cyn bo hir.

Diolch am fod yn rhan o'r mudiad hwn o bobl, eglwysi a mudiadau lleol sydd yn eiriol dros urddas, cydraddoldeb, cyfiawnder a chariad. Dyma ychydig o bethau i godi calon ac i'w nodi yn y dyddiadur dros y misoedd nesaf.

**Adroddiad 'Our Year of Impact'**
Bydd yr adroddiad bach lliwgar Our Year of Impact yn codi calon ac yn eich annog i weithredu yn erbyn tlodi yn 2025. Sylwch ar stori her tri chopa Iwan Williams y llynedd er cof am ei nain, Irene Williams, a fu'n sbardun i rai o grwpiau gweithredu cyntaf Cymorth Cristnogol yng Nghymru.

**Cyngerdd Gŵyl Ddewi**
Ymunwch â ni nos Sadwrn, 1 Mawrth (7.30–9.30pm), mewn cyngerdd a gynhelir gan Esgob Llandaf yng Nghadeirlan Llandaf yng Nghaerdydd. Mae'r tocynnau am ddim, gyda chasgliad ar y noson. Tocynnau yma.

**Hanner Marathon Caerdydd**
Mae gennym 10 lle os hoffech ymuno â thîm Cymorth Cristnogol Cymru ym mis Hydref 2025. Cofrestrwch i fod yn rhan o'r tîm!

**Cynhadledd Changemakers**
Ymunwch â chefnogwyr o bob cwr o'r Deyrnas Unedig ddydd Sadwrn, 8 Mawrth (10.30am–1pm), i glywed gan staff a phartneriaid Cymorth Cristnogol o Guatemala, gyda chyfle i baratoi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2025. Er mai Llundain yw canolbwynt y cyfan, byddem wrth ein bodd pe baech yn ymuno â ni ar-lein! Cofrestrwch yma.

**Taclo Tlodi adeg y Grawys**
Mae'r cwrs chwe wythnos hwn wedi'i gynllunio gyda phartneriaid anhygoel yn y Deyrnas Unedig er mwyn helpu i gael dealltwriaeth ddyfnach o dlodi a magu hyder i drafod y mater gyda chynrychiolwyr gwleidyddol. Mae'n ddelfrydol ar gyfer y Grawys ac ar gael yn llawn yn Gymraeg. Rhagor o fanylion: cwrs Taclo Tlodi

**E-newyddion Cymorth Cristnogol Cymru**
I dderbyn diweddariadau gan Gymorth Cristnogol Cymru, fe fedrwch gofrestru i dderbyn ein neges e-bost newydd, a fydd yn cael ei hanfon atoch bob mis neu ddau. Ewch i dudalen hafan y wefan a sgrolio i lawr i'r gwaelod, ac yn y gornel dde, fe welwch 'Receive updates about our work': www.christianaid.org.uk

*Mari McNeill*
*Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru*

# Parchg Irfon Iorwerth Jones BA, M. Add. (1935–2024)



Gyda thristwch y clywsom am ymadawiad ein cyfaill hoff ar drothwy cyfnod yr Adfent a'r Nadolig. Bylchwyd y teulu eto a'u hamddifadu o dad gofalgar a thad-cu tirion. Yn wir mae cymuned cylch Llangefni ac ynys Môn yn dlotach ar ei ôl. Nodaf dri pheth amdano:

### Ei gefndir a'i gyraeddiadau

Wnes i gyfarfod Irfon ar gychwyn yr Ail Ryfel Byd. Roeddem yn byw o fewn canllath i'n gilydd ym mhentref Pontiets, Cwm Gwendraeth yn sir Gaerfyrddin. Cytunem â'r bardd Cristnogol Gwenallt yn ei soned i'r sir:

Bydd gweld dy bridd fel gweled wyneb brawd
A'th wair a'th wenith fel perthnasau hen.

Buom yn gyfeillion agos ar hyd ein bywyd a threuliodd y ddau ohonom dros ddeugain mlynedd yn byw ar ynys Môn ac ystyriwn ef fel fy nghyfaill pennaf.

Dilynodd gwrs diwinyddol yng ngholeg yr Annibynwyr yn nhref Caerfyrddin. Yn dilyn hynny cafodd alwad i ofalaeth Bow Street a Borth (1958–64) lle bu'n llafurio'n ddiwyd a brwdfrydig ac yn fawr ei barch. Ar anogaeth gweinidog Baker Street, Aberystwyth, y Parchg W. B. Griffiths, dilynodd gwrs yn y brifysgol ac enillodd radd anrhydedd uchel mewn Athroniaeth. Yna gwnaeth gwrs blwyddyn o ymarfer dysgu a sicrhau canlyniad dosbarth cyntaf yn yr arholiadau. Bu am gyfnod wedyn yn ysgol uwchradd Llanidloes (1964–70) tra daliodd i gynorthwyo eglwysi'r cylch ar y Suliau.

Am ddwy flynedd bu'n brifathro ar ysgol gynradd Cwrtnewydd yn sir Aberteifi (1970–72 -cyn ei benodi yn bennaeth adran Ysgrythur yn ysgol uwchradd Llangefni (1972–95) ac arhosodd ar ynys Môn weddill ei ddyddiau. Yn y cyfnod hwn enillodd radd M. Add. yn ychwanegol i'w gymwysterau eraill.

### Ei gymeriad didwyll

Gallem yn hawdd dadogi yr adnod hon amdano: 'Addfwyn ydoedd a gostyngedig o galon.' Tystiodd llawer ei fod 'yn feunyddiol fonheddig'.

Ychydig flynyddoedd yn ôl cyn ei symud o ysbyty Gwynedd i ysbyty Manceinion daeth arbenigwr y galon i'w archwilio ac ar ddiwedd yr ymddiddan trodd at Irfon a gofyn iddo, 'Any more questions Mr Jones?' Atebodd yntau, 'No, only deep appreciation.' Yn ystod wythnosau olaf ei fywyd un arall o'i sylwadau i feddyg arall oedd, 'I know I am mortal, but I also have a faith.' Ychydig o flynyddoedd yn ôl, ar ddydd ei ben-blwydd, anfonais gerdyn i'w longyfarch ond cynnwys y tro hwnnw englyn o waith y Parchg Huw Dylan Jones wnaeth ei swyno'n llwyr.

Heibio aeth dyddiau ein maboed – a hwyl
A helynt ein glasoed.
Yr un ydym er henoed.
A'r un fel ffrindiau erioed.

### Ei gyfraniad cyfoethog

Mae un swydd yn ddigon i'r mwyafrif ohonom ond cyflawnodd Irfon rôl ddeublyg am bymtheg mlynedd fel gweinidog rhan amser i eglwysi Ebenezer Rhosmeirch a Sardis Bodffordd (1983–98). Gwir yw y gair ac yn haeddu bob derbyniad ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid.

Rôl allweddol arall oedd bod yn ddehonglwr i ddisgyblion yr ysgol. Agor, trin, egluro, dadansoddi'r geiriau ac ymdrechu i ddangos perthnasedd y cyfan i fywyd cyfoes a chymorth i fyw mewn byd anodd a chythryblus. Yn y pulpud clywais dystiolaeth gadarn bod ôl darllen eang, paratoi manwl a myfyrdod dwys i'w bregethu graenus a chymeradwy. Ar fy aelwyd gwelais yn llyfrau'r plant nodiadau yr athro ysgrythur. 'Roeddent yn gryno, yn gynhwysfawr ac yn gaboledig. Gwireddodd anogaeth yr emyn:

"Agor i ni'r Ysgrythurau
Dangos i ni Geidwad dyn."

Yr hyn a edmygwn am Irfon oedd bod ganddo feddwl agored a threiddgar. Nid oedd culni na dim eithafol yn agos i'w babell. Ei ateb i bobl neu ddisgyblion oedd yn cael anhawster i ddeall adrannau anodd rhyfelgar a gwaedlyd yn yr Hen Destament oedd awgrymu gosod 'meddwl Crist' gogyfer â hwy ac yn hytrach na'u derbyn fel 'meddylfryd yr Arglwydd', eu hystyried fel ffeithiau hanesyddol oedd yn adlewyrchu safbwynt oes bell yn ôl.

Cofiaf drafod llyfr Saesneg gydag ef yn dwyn y teitl *The Hard Sayings of Jesus* thema nad oedd wedi cael lle yn ein meddwl cynt, fel yr hanes am y Gwaredwr yn troi byrddau'r cyfnewidwyr arian drosodd a dweud wrthynt heb flewyn ar ei dafod; 'Tŷ Duw yw hwn ond chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron.' Llymach fyth oedd beirniadaeth yr Iesu o bobl sy'n gwneud cam â phlant diniwed – eu curo, cam-drin a'u lladd. Onid yw hyn yn siarad yn glir â'n dyddiau ni? Mae'r cyfryw rai yn haeddu cosb enbyd (gweler Mathew 18:6). Ar derfyn trafodaeth fywiog a hynod ddifyr gwyddwn fy mod yng nghwmni arbenigwr ysgrythurol o'r radd flaenaf.

Cafodd oes hir, cynhyrchiol a dylanwadol. Ym mhob cylch y bu'n byw a gwasanaethu erys aelodau eglwysig a disgyblion ysgolion yn fawr eu dyled iddo.

Fe'i cofiwn fel gweinidog da, athro ymroddedig a'r ffrind anwylaf. Irfon, 'Cu iawn fuost gennyf fi.' (2 Samuel 1:26)

**Parchg John Morgan Jôb**

**Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin**
**Y Gymdeithas**

**Cofio...**



**Y Parchg W RHYS NICHOLAS**
(1914-1996)

Siaradwr:
**RICHARD EYNON HUWS**
Bontgoch, Aberystwyth
(Nai y diweddar Beti a W. Rhys Nicholas)

Gyda:
**PEDWARAWD BRYNAWEL**
Helen Gibbon a'i ffrindiau yn canu
detholiad o emynau W. Rhys Nicholas

**DYDD MAWRTH, 18 CHWEFROR**
**2.00**
**FESTRI HEOL AWST, Caerfyrddin**

CROESO CYNNES I BAWB

# Barn Annibynnol

## Cymuned Iona

Tebyg bod gan bawb ei hoff lyfr, un a drysorir ac a gedwir yn ddiogel. Un o'r llyfrau dw i wedi ei drysori dros yr hanner canrif ola 'ma yw *Only One Way Left* gan y diweddar George F. MacLeod. Ganwyd MacLeod yn 1895, yn fab i Aelod Seneddol gyda'r Ceidwadwyr. O fewn yr Eglwys yn yr Alban, ystyriwyd MacLeod fel un o'i gweinidogion mwya dadleuol yn ei ddydd, gan y gwelai'r angen i chwalu'r ffiniau traddodiadol, a mynd â neges yr Efengyl i bob cornel o fywyd y gymdeithas. Nid mater o'r gymdeithas yn dod i'r Eglwys oedd hi, yn hytrach bod yr Eglwys yn ymestyn allan ac yn byw ei ffydd yn ymarferol yn y gymuned.



Ym 1938 gadawodd ei waith fel gweinidog yn Govan, gan arwain grŵp o bobol ifanc i ynys Iona – ynys fechan 1.5 milltir o led wrth 3 milltir o hyd – gyda'r nod o sefydlu cymuned Iona. Cychwynnwyd ar y gwaith drwy ailadeiladu'r abaty a oedd yn adfail ers y Diwygiad Protestannaidd. Bellach mae yno ganolfan lle gall pobol ddod at ei gilydd i rannu profiad, chwilio am lonyddwch neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddyfnhau eu ffydd. Yng nghyfnod Sant Columba yn y chweched ganrif mae gwreiddiau Cristnogol yr ynys. Gwyddel oedd Columba a fu ar daith genhadol drwy'r Alban cyn ymgartrefu ar yr ynys a sefydlu cymuned Gristnogol yno.

### Gweithredu

Ganwyd y gymuned fodern yno o'r angen i ymateb i ofynion dwys cymunedau Glasgow a oedd yn dioddef tlodi o ganlyniad i ddiweithdra yn y 1930au.



Sylweddolai MacLeod nad oedd yr eglwysi'n gwasanaethu'r cymunedau anghenus hyn. Felly, ers y 1930au, canolbwyntiodd y gymuned yno ar ddiogelu cymunedau tlawd a bregus, gan geisio sicrhau cyfiawnder a sylfaen economaidd ddiogel iddynt. Golyga hyn weithredu yn gymdeithasol a gwleidyddol er mwyn sicrhau cyfiawnder i bawb, ac mae'r gymuned yn ystyried hyn yn rhan allweddol o fywyd yr Eglwys heddiw.

### Teyrnas Dduw

Iesu a ddywedodd 'Dw i wedi dod i roi bywyd i bobl, a hwnnw'n fywyd ar ei orau.' (Ioan 10:10. *beibl.net <http://beibl.net>*) a dyna yw gweledigaeth cymuned Iona. Dyna fu Iesu yn ceisio ei gyflawni – sefydlu gwerthoedd Teyrnas Dduw. Mae materion heddwch, cyfiawnder, y greadigaeth, dyfodol y blaned, economi iach yn sylfaen gadarn i holl waith y Gymuned. Rhai blynyddoedd yn ôl, roedd gan Gymorth Cristnogol slogan wych sef 'Credwn mewn bywyd cyn marwolaeth' Mae gan bawb ar bob cyfandir yr hawl i 'fywyd ar ei orau' yn y byd hwn, heddi. Mae'r gwaith a gyflawnir gan gymuned Iona yn dal i'w weld mewn gweinidogaeth i gymunedau tlawd a phobl ar ymylon y gymdeithas.

### Byd-eang

Ymwelsom â'r ynys rhyw dair blynedd yn ôl a dod i ymdeimlo â rôl bwysig y gymuned hon i'n dyddie ni. Erbyn heddiw mae cymuned Iona yn denu dros 130,000 o bererinion o bedwar ban byd yn flynyddol. Mae'r gymuned yn dal i fod yn un eciwmenaidd ei naws. Yn ystod cyfnod Covid, ymunais ag oedfaon wythnosol y gymuned dros Zoom. Roedd y 'gynulleidfa' ar-lein yn cynnwys aelodau o'r Unol Daleithiau, Affrica, y Dwyrain Canol, Dwyrain Ewrop, Awstralia, Seland Newydd, Ffrainc, yr Almaen ymhlith eraill.

Yn ei lyfr, mae MacLeod yn gofyn y cwestiwn, 'A ddylai'r Eglwys gyfyngu ei hun i'r Efengyl?' A'i ateb yw, 'Dylai, ond i'r Efengyl beidio â chael ei chyfyngu mewn unrhyw ffordd.' Hynny yw, mae'r Efengyl yn ymwneud â phob agwedd o fywyd y ddynoliaeth, yr amgylchedd, cyfiawnder, ymgeledd, hyd yn oed y bywyd ysbrydol a gwleidyddol. Os gwêl yr Eglwys anghyfiawnder a hwnnw oherwydd gweithred wleidyddol, yna mae cyfrifoldeb arni i lefaru gair proffwydol mewn pryd, a hynny yn erbyn unrhyw blaid wleidyddol sy'n anwybyddu gwerthoedd y Deyrnas.

### Marianne Budd

Yn ddiweddar, daeth enw yr Esgob Marianne Budd yn un cyfarwydd! Bu'r esgob yn ddigon dewr i draddodi gair Duw mewn dull cwrtais, tawel a phroffwydol gerbron cynulleidfa yn cynnwys yr Arlywydd Trump. Ni wnaeth yr Esgob ganmol yr Arlywydd, ond yn hytrach galw arno i ddangos trugaredd a thosturi Duw tuag at yr anghenus, y digartre, y dioddefus, yr estroniaid yn ystod ei arlywyddiaeth. Cynhyrfwyd yr Arlywydd! Wrth i mi ddarllen yr hyn a ddwedodd yr Esgob, daeth geiriau George McLeod yn ôl yn fyw i mi: 'A ddylai'r Eglwys gyfyngu ei hun i'r Efengyl? Dylai, ond i ni beidio â chyfyngu'r Efengyl mewn unrhyw ffordd.'

> Our God teaches us that we are to be merciful to the stranger, for we were all once strangers in this land.
>
> (Esgob Marianne)

### Ar y stryd

Un o feibion amlwg cymuned Iona heddiw ydi'r Parchg John Bell. Cyfieithwyd un o'i emynau i'r Gymraeg gan y Parchg Pryderi Llwyd Jones:

> Mae Iesu Grist yn galw,
> Yn galw ar y Stryd
> 'Pwy ddaw ar daith y bywyd?
> Dilynwch fi i gyd.'
> O gwrando, Arglwydd Iesu,
> Rho nerth i'th ddilyn di,
> Rho hedd a rho lawenydd
> Dy gyfaill ydwyf fi.
>
> (*Caneuon Ffydd*, rhif 870)

Portread sydd yn yr emyn o'r Iesu fel yr aflonyddwr, ysgogwr a dylanwadwr. Diolch i Dduw am y sawl sy'n dal i ddilyn Iesu ac sy'n parhau i gynhyrfu cymdeithas ac eglwys yn ei enw. Y diwinydd Catholig o Sri Lanka, Tissa Balasuriya pia'r gair ola; yn ei lyfr sy'n trafod pwysigrwydd y Forwyn Fair, noda, 'Jesus did not come into the world to comfort the disturbed, but rather to disturb the comfortable.'

Diolch am ddylanwad George MacLeod ddoe, a chymuned Iona heddiw. Mae'r Iesu'n dal i alw gweithwyr heddiw i adeiladu'r Deyrnas.

**Tom Evans, Peniel**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Llanw 25
## Llangrannog, 21–25 Ebrill

Eleni ein thema fydd 'Dathlu Iesu, ein Proffwyd, Offeiriad a Brenin'.

Fe fydd y Parchg Jonathan Thomas yn arwain tair sesiwn yn y bore yn edrych ar y tair agwedd yma o berson Iesu.


Rydym hefyd wedi trefnu i Rachel Radbourne a Joseff Edwards arwain ein hoedfaon nos Fawrth a nos Iau, gydag oedfa wedi ei threfnu yn arbennig ar gyfer yr ardal leol ar y nos Fercher.

Bydd darpariaeth lawn ar gyfer plant ac ieuenctid gydol yr ŵyl fel arfer.

Am ragor o fanylion a ffurflen archebu, ewch i'r wefan: https://llanw.org/ llanw-25/




# Gweddi ar doriad gwawr



Arglwydd anweledig, diolch am yr elfen o fy ymwybyddiaeth ohonot a'r awydd a'r dyhead sydd yn nyfnder fy nghalon i ganfod dealltwriaeth gliriach a dyfnach ohonot, er mwyn i fi wybod beth yw dy ewyllys ar gyfer sut dylwn feddwl amdanat a sut dylwn ufuddhau i a gweithredu dy ewyllys y dydd heddiw ac i'r dyfodol.

Maddau fod yr agwedd annerbyniol a'r diffyg ymroddiad a theyrngarwch i Ti yn fy mywyd yn y gorffennol ac yn fwy diweddar hefyd, wedi tristáu dy Ysbryd. Caniatâ i fi gyfle newydd, adnewydda fy enaid, pura fy myfyrdodau a chryfha fy nisgyblaeth er mwyn i'm crwydro digyfeiriad gael ei drawsffurfio yn bererindod gyda nod, ystyr a diben iddo er mwyn i eraill gael gwell adnabyddiaeth ohonot trwy fy rhesymeg, fy siarad, fy ngwerthoedd a'm gweithredoedd heddiw ac i'r yfory. **Amen.**

**Pererin wyf**

*(Derbyniwyd gan Gwilym Wyn)*

## CYRDDAU CHWARTER CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN 2025
(Pob un ar ddydd Iau)



13 Mawrth 10.30 a 1.30
ELIM, Ffynnon-ddrain
Siaradwr: ALED DAVIES
(Cyhoeddiadau'r Gair)



8 Mai
4.00 a 7.00
CAPEL NEWYDD, Llanybri



11 Medi (trefn arbrofol)
10.30 yn unig
PANT-TEG, ger Felinwen



27 Tachwedd
10.30 a 1.30
SEILO, Llangeler

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*